Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

David Rees AS,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

---

7 Hydref 2020

Annwyl David

**Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig**

Yn dilyn sesiwn graffu gychwynnol ar 21 Medi 2020, rydym wedi trefnu i glywed rhagor o dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol, Jeremy Miles AS, ar Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig Llywodraeth y DU am 10.00am ar 2 Tachwedd 2020.

Rydym wedi gweithio gyda'n gilydd yn y gorffennol ar faterion sy'n ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE. O ystyried goblygiadau sylfaenol y Bil ar gyfer gweithrediad effeithiol y setliad datganoli ac ar gyfer Cymru yn fwy cyffredinol, gallai fod yn bragmatig ac yn fuddiol i fanteisio ar y cyfle hwn i graffu ymhellach ar y Bil gyda'n gilydd.

Felly, hoffwn eich gwahodd chi a chynrychiolydd eich Pwyllgor i ddod i'n sesiwn dystiolaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol ar 2 Tachwedd. Rydym hefyd yn estyn gwahoddiad i'r Pwyllgor Cyllid.

Os byddwch yn cytuno, gall ein Clercod perthnasol wneud y trefniadau angenrheidiol.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565